



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)
(Cymru) 2020

DYDDIAD 22 Ebrill 2020

GAN Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae'r pandemig coronafeirws presennol yn effeithio ar fywydau pob un ohonom ac fe fydd yn parhau i gyflwyno nifer o heriau i'r ffordd yr ydym yn gallu gweithredu yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gwaith yr awdurdodau lleol yn hanfodol wrth gefnogi unigolion, busnesau a chymunedau ar yr adeg eithriadol hon. Mae graddfa a natur yr heriau sy'n cael eu hwynebu bob dydd yn ddigynsail, ond mae ymdrechion yr awdurdodau lleol i gydweithio â sectorau eraill ledled Cymru i fynd i'r afael â'r pandemig hwn yn ysbrydoledig ac yn gwneud inni deimlo'n wylaidd.

Ymhlith y mesurau sy'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â COVID-19 mae cadw pellter cymdeithasol, osgoi teithio nad yw'n hanfodol a'r gofyniad i weithio gartref lle y bo'n bosibl. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol i gyfarfod wyneb yn wyneb mewn swyddfeydd penodedig, i sicrhau bod llawer o gyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd ac i alluogi'r cyhoedd i archwilio dogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd, a hynny mewn rhai achosion yn swyddfeydd yr awdurdodau lleol. Mae hyn yn groes i'r mesurau sydd ar waith ar gyfer COVID-19.

Lle y gall y Llywodraeth gymryd camau i leihau'r rhwystrau i ddilyniant busnes ac osgoi aflonyddwch diangen mae'n bwysig inni wneud hynny.

Rwyf yn dal i fod mewn cysylltiad rheolaidd ag arweinwyr awdurdodau lleol i nodi camau y gellir eu cymryd i gefnogi ein teulu llywodraeth leol. Drwy'r trafodaethau hyn a thrafodaethau parhaus rhwng fy swyddogion a chynrychiolwyr Cynghorau Cymuned, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe, nodwyd nifer o feysydd lle y byddai llacio rhai o'r gofynion mewn deddfwriaeth yn helpu'r cyrff hynny i barhau i gyflawni eu swyddogaethau pwysig.

Mae'r rheoliadau sy'n dod i rym heddiw yn gwneud darpariaeth dros dro mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a rhoi mynediad i'r cyhoedd a'r wasg i'r cyfarfodydd hyn yn ystod pandemig COVID-19. Nid wyf yn disgwyl i gyfarfodydd awdurdodau lleol ddychwelyd i'r drefn arferol am rai misoedd ac felly bydd angen i gynghorau fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer busnes brys yn ymwneud â COVID-19.

Mae'r Rheoliadau'n cynnig hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, gan gadw'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys galluogi cynnal cyfarfodydd lle bo'r holl fynychwyr neu rai ohonynt yn ymuno o bell, a thrwy wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi dogfennau penodol yn electronig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i brif gynghorau a'u gweithrediaethau, cynghorau cymuned, Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru.

[Mae'r rheoliadau i'w gweld yma](#)

Mae'n bwysig cydnabod cyfraniad cynrychiolwyr yr holl sefydliadau hyn wrth ddatblygu'r rheoliadau hyn sydd wedi canolbwyntio ar gynnal eu ffocws ar ddarparu gwasanaethau i unigolion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.